**Pwyllgor Cangen Prifysgol Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

**Cyfansoddiad a Chylch Gorchwyl**

---

1. **Cyfansoddiad**

**Aelodau**

Bydd y canlynol yn aelodau o Bwyllgor y Gangen:

- Y Dirprwy Is-Ganghellor â gofal am y Gymraeg
- Deoniaid Cysylltiol y Gymraeg
- Staff academaidd y Brifysgol sy'n ymwneud ag addysgu academaidd drwy'r Gymraeg, gan gynnwys Darlithwyr Cysylltiol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Staff academaidd academaidd berthynol a gweinyddol y Brifysgol sy'n cefnogi addysgu academaidd drwy'r Gymraeg
- Llywydd UMCA
- Cynrychiolydd o blith myfyrwyr uwchraddedig cyfrwng Cymraeg y Brifysgol sy'n aelodau o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Cynrychiolydd o blith myfyrwyr israddedig cyfrwng Cymraeg y Brifysgol sy'n aelodau o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol[1]

Bydd aelodau'r Gangen hefyd yn aelodau o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Gwahoddir cynrychiolydd o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i bob cyfarfod.

**Cadeirydd**

Etholir Cadeirydd i'r Gangen o blith yr aelodau am dymor o ddwy flynedd yn y lle cyntaf.

Bydd y Cadeirydd, yn rhinwedd ei swydd, yn cynrychioli'r Brifysgol ar Fwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Bydd y Cadeirydd yn gweithredu am gyfnod o ddwy flynedd a gellir ail-ethol yr un person am gyfnod pellach o ddwy flynedd.

**Is-gadeirydd**

Etholir Is-gadeirydd i'r Gangen o blith yr aelodau. Bydd yr Is-gadeirydd yn dirprwyo ar ran y Cadeirydd ac yn cyfarfod â'r Cadeirydd, yr Ysgrifennydd a'r Swyddogion yn ôl yr angen.

---

[1] Gwahoddir UMCA i enwebu myfyrwyr uwchraddedig ac israddedig sydd i'w penodi i'r Pwyllgor.

Bydd yr is-gadeirydd yn gweithredu am gyfnod o ddwy flynedd yn y lle cyntaf.

**Ysgrifennydd**

Bydd Swyddog y Gangen yn gweithredu fel Ysgrifennydd i'r Pwyllgor.

2. **Cyfarfodydd**

2.1 Swyddog y Gangen fydd yn cynnull cyfarfodydd y Pwyllgor ac yn cadw cofnodion.

2.2 Gellir galw cyfarfod arbennig/brys o'r Gangen trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cadeirydd a'i gefnogi gan o leiaf 3 aelod o'r Gangen. Cynhelir cyfarfodydd cyffredin y Pwyllgor o leiaf unwaith bob tymor.

2.3 Anfonir rhybudd o gyfarfod cyffredin ynghyd ag agenda a chofnodion y cyfarfod blaenorol i'r aelodau o leiaf bum niwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod.

2.4 Bydd dwy ran i'r agenda, sef rhan A a rhan B. Bydd rhan A yn cynnwys materion i'w trafod yn fewnol ymhlith staff Prifysgol Aberystwyth. Bydd Rhan B yn cynnwys yr eitemau a fydd i'w trafod a'u hystyried yn y cyfarfod llawn. Gellir cyflwyno adroddiadau er gwybodaeth na fydd yn cael eu trafod yn y cyfarfod oni gofynnir am drafodaeth arnynt gan yr aelodau. Yn ddelfrydol, gofynnir i aelodau roi gwybod i Swyddog y Gangen o leiaf dri diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod os ydynt yn dymuno trafod codi mater o dan 'Unrhyw fater arall'. Mewn achosion brys gellir codi materion yn y cyfarfod heb rybudd o flaen llaw.

2.5 Bydd perthynas agos rhwng Pwyllgor y Gangen a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Gall aelodau'r Gangen gyfeirio unrhyw faterion sydd angen eu cyflwyno i Fwrdd Academaidd y CCC drwy'r Cadeirydd. Bydd cynrychiolydd o'r Coleg yn derbyn gwahoddiad i bob cyfarfod

2.6 Y cworwm angenrheidiol fydd deg aelod o'r Gangen, ynghyd â'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd.

2.7 Pleidleisir drwy godi dwylo ac eithrio os darperir fel arall, ond os llwydda cynigiad am bleidlais gudd fe bleidleisir trwy bleidlais gudd.

3. **Cylch gorchwyl**

3.1 Bydd Pwyllgor y Gangen yn atebol i'r Senedd.

3.2 Bydd cofnodion y Pwyllgor ac unrhyw adroddiadau perthnasol yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg. Bydd materion y Gangen yn eitem sefydlog ar agenda'r pwyllgor hwn.

3.3 Cynghori'r Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg wrth gynllunio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y Brifysgol, a chynghori am gynlluniau datblygu'r adrannau academaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â'r ymrwymiadau a wneir mewn cynlluniau pwnc a grantiau pynciol.

3.4 Cyfrannu at yr ymateb sefydliadol i ddogfennau ymgynghorol gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Cyllido.

3.5 Cynghori adrannau a'r Brifysgol ar geisiadau am gyllid gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol gan gynnwys grantiau prosiect, ysgoloriaethau a darlithyddiaethau.

3.6 Derbyn adroddiadau am weithgareddau marchnata cyfrwng Cymraeg y Brifysgol a chynnig ymateb iddynt.

3.7 Cynghori pwyllgorau a swyddogion y Brifysgol ynglŷn â materion ehangach yn ymwneud â'r Gymraeg.